Ken Finch
Trysorydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru
d/o Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Swyddfeydd y Cyngor
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | |
| **Ein cyfeirnod** | Man Reps |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | 01244 288530 |
| **Rhif Ffacs** | 01244 288531 |
| **Ebost** | d-jones@WAO.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o 3 |

Annwyl Ken

**Cynrychiolaethau Rheoli mewn perthynas â Chyfriflen 2004/2005**

Yn unol â'n trefn archwilio blynyddol arferol a SAS 440 (Cynrychiolaethau Rheoli) gaf i ofyn i chi ddarparu cynrychiolaethau ffurfiol ar nifer o faterion yn ymwneud â'r cyfrifon ariannol sydd wedi'u nodi isod os gwelwch yn dda:

1. Nid oes unrhyw asedau/ymrwymiadau arwyddocaol neu weithgareddau ôl-fantolen, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu yn y datganiadau ariannol. Yn arbennig:

    - nid oes unrhyw eitemau arwyddocaol yn aros ymgyfreithiad, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu'n barod yn y datganiadau ariannol;

    - nid oes unrhyw ymrwymiadau materol na materion cytundebol, heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u datgelu'n barod yn y datganiadau ariannol.

2. Mae holl drafodion yr Awdurdod wedi'u hadlewyrchu a'u cofnodi'n gywir yn y cofnodion cyfrifo.

3. Nid oes unrhyw gynlluniau na bwriadau allai effeithio ar ddosbarthiad neu brisiad asedau a chyfrifoldebau a bod unrhyw leihad parhaol mewn asedau sefydlog wedi'i bennu.

4. Ni chafwyd unrhyw:

    - Anghysondeb yn ymwneud â'r rheolwyr sy'n chwarae rhan arwyddocaol yn y system o reolaeth fewnol y gwaith cyfrifo;

- Anghysondebau yn ymwneud â chyflogeion eraill allai gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol;

- Cyfathrebiadau gan asiantaethau rheoli sy'n ymwneud â diffyg cydsynio â, neu ddiffygiant mewn, ymarferion adrodd ariannol allai gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol.

5. Nid oes unrhyw is-gwmnïau, cwmnïau cysylltiol, fentrau ar y cyd na threfniadau ar y cyd heblaw'r rheini sydd wedi'u datgelu yn y cyfriflenni ariannol ac mewn nodiadau cysylltiol.

6. Mae'r datganiadau ariannol a/neu'r nodiadau i'r cyfrifon yn datgelu unrhyw -

    - Achosion neu achosion posib o dorri cyfreithiau neu reoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau i'w datgelu yn y datganiadau ariannol neu fel sail ar gyfer cofnodi colled wrth gefn;

    - Ffactorau materol eraill fyddai'n dylanwadu ar farn darllenwyr y mantolenni.

7. Nid yw asedau'r Awdurdod wedi'u defnyddio mewn unrhyw ffordd fel gwarant ar gyfer benthyciadau.

8. Mae'r holl ymrwymiadau dan brydlesau ariannol neu gytundebau hurbrynu wedi'u datgelu yn y cyfrifon.

9. Nid oes unrhyw warantau ariannol wedi'u rhoi i drydydd parti.

10. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â phob agwedd o'r cytundebau cytundebol fyddai'n gofyn gwneud addasiad i, neu wneud datgeliad yn y datganiadau ariannol.

11. Nid oes unrhyw drafodion materol eraill gyda phartïon perthnasol (fel y maent wedi'u diffinio gan FRS 8 a'r LG SORP), heblaw'r rhai hynny sydd wedi'u cofnodi a'u datgelu yn y datganiadau ariannol.

12. Mae'r holl fuddion heb eu cyllido (e.e. blynyddoedd ychwanegol dewisol) wedi'u hystyried wrth gasglu'r ffigurau FRS17 sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol.

Mewn perthynas ag eitem 1 uchod byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi manylion i mi am unrhyw eitemau arwyddocaol sydd heb eu cynnwys yn y cyfrifon a'ch cyfiawnhad chi am y ffordd y maent wedi'u trin, os oes rhai.

Os na allwch ddarparu cynrychiolaethau mewn perthynas ag unrhyw un o'r pwyntiau uchod, fyddech chi cystal, os gwelwch yn dda, â darparu'r manylion perthnasol fel y gallwn ninnau ddefnyddio'r rheini fel sail ar gyfer trafodaeth bellach. Bydd yr wybodaeth yma'n ein helpu i

gwblhau ein harchwiliad a darparu sicrwydd ychwanegol am gywirdeb a chyflawnrwydd cyfriflen yr Awdurdod.

Hoffwn ofyn i'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon dan reoliad 8 y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliad gydnabod y llythyr yma a'ch ateb i minnau'n ffurfiol os gwelwch yn dda.

Hoffwn hefyd i chi gadarnhau yn eich ateb bod y cynrychiolaethau yma wedi'u gwneud ar sail ymholiadau â'r rheolwyr a'r staff sydd â'r wybodaeth a'r profiad perthnasol (a, lle bo'n briodol, ar sail archwiliad o ddogfennaeth gefnogol) yn ddigonol i'ch bodloni eich hun eich bod yn gallu gwneud y cynrychiolaethau yma'n gywir i ni.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech drafod unrhyw rai o'r pwyntiau yma, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir iawn

David Jones
Rheolwr Archwiliadau